**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

# Y BIL CAETHWASIAETH FODERN: DARPARIAETHAU SY'N YMWNEUD AG EIRIOLWYR MASNACHU PLANT, CANLLAWIAU AR ADNABOD A CHEFNOGI DIODDEFWYR A RHAGDYBIO OEDRAN

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog ("OS") 29.2. Mae OS29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw un o Filiau Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sydd naill ai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Caethwasiaeth Fodern (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Mehefin 2014. Mae'r Bil ar gael yn:

   http://services.parliament.uk/bills/2014-15/modernslavery.html

## Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Mae'r Bil yn atgyfnerthu ac yn symleiddio'r troseddau presennol sy'n ymwneud â chaethwasiaeth a masnachu pobl mewn un darn o ddeddfwriaeth er mwyn rhoi eglurder a ffocws wrth erlyn y rheini sy'n ymwneud â chaethwasiaeth a masnachu pobl.

4. Mae 5 rhan i'r Bil:
   - Mae Rhan 1 yn atgyfnerthu'r troseddau presennol o gaethwasiaeth a masnachu pobl, gan gynyddu'r gosb fwyaf ar gyfer troseddau o'r fath.
   - Mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer dau orchymyn ataliol sifil newydd, y Gorchymyn Atal Caethwasiaeth a Masnachu Pobl a'r Gorchymyn Risg Caethwasiaeth a Masnachu Pobl.
   - Mae Rhan 3 yn sefydlu swydd Comisiynydd Gwrth-gaethwasiaeth ac yn pennu swyddogaethau'r Comisiynydd.
   - Mae Rhan 4 yn cyflwyno nifer o fesurau sy'n canolbwyntio ar gefnogi ac amddiffyn dioddefwyr, gan gynnwys amddiffyniad statudol ar gyfer dioddefwyr caethwasiaeth neu fasnachu pobl a mesurau arbennig i dystion mewn achosion troseddol.
   - Mae Rhan 5 yn ymwneud â materion cyffredinol fel materion canlyniadol, darpariaethol a chychwyn.

## Darpariaethau yn y Bil ar gyfer ceisio cydsyniad

5. Ceisir cydsyniad y Cynulliad ar gyfer cymalau 41, 42 a 43 y Bil wrth ei gyflwyno. Mae'r cymalau hyn bellach wedi cael eu hail-rifo'n 43, 44 a 45 yn y copi o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Bil Cyhoeddus. Nid yw'r cymalau eu hunain wedi newid ond maent wedi'u hail-rifo oherwydd diwygiadau eraill a wnaed mewn rhannau eraill o'r Bil.

6. Mae Cymal 43 (eiriolwyr masnachu plant) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud trefniadau fel bod eiriolwyr arbenigol mewn masnachu plant ar gael i gefnogi a chynrychioli plant y mae rheswm dros gredu y gallant fod yn ddioddefwyr masnachu plant.

7. Mae Cymal 44 (canllawiau ar adnabod a chefnogi dioddefwyr) yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus ac unigolion eraill yr ystyrir eu bod yn briodol gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag adnabod a chefnogi dioddefwyr. Bydd canllawiau o'r fath yn cynnwys sut i adnabod unigolyn a all fod yn dioddef o gaethwasiaeth/masnachu pobl ac unrhyw drefniadau ar gyfer pennu a fydd unigolyn yn cael ei drin fel rhywun sy'n dioddef o gaethwasiaeth/masnachu pobl; a'r ddarpariaeth o gymorth a chefnogaeth i unigolion o'r fath.

8. Mae Cymal 45 (rhagdybio oedran) yn adlewyrchu'r rhagdybiaeth mewn cyfarwyddeb Ewropeaidd sydd eisoes yn bodoli, lle mae oedran yr unigolyn sy'n cael ei fasnachu yn ansicr ac mae rheswm dros gredu bod yr unigolyn yn blentyn, yna rhagdybir mai plentyn yw'r unigolyn hwnnw.

9. Mae'r holl ddarpariaethau a amlinellir uchod yn berthnasol mewn perthynas â Chymru.

10. Nid yw'r darpariaethau hyn yn rhoi unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau yng nghymalau 43, 44 a 45 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â mater "llesiant cymdeithasol" o dan bennawd llesiant cymdeithasol ym mharagraff 15 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn bod y darpariaethau yng nghymalau 43 a 45 yn ymwneud â mater "amddiffyn a llesiant plant" o dan yr un pennawd.

**Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn berthnasol o ran Cymru. Mae'r Bil Caethwasiaeth Fodern yn darparu ar gyfer meysydd polisi datganoledig ac annatganoledig, i helpu i fynd i'r afael â masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern drwy egluro'r troseddau sy'n berthnasol, a darparu ar gyfer mwy o amddiffyniad a chefnogaeth i ddioddefwyr y troseddau hyn. Mae'n ymarferol i'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig ac annatganoledig, i sicrhau bod yr agweddau datganoledig ac annatganoledig wedi'u hintegreiddio'n llawn, ac i sicrhau bod dioddefwyr caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yng Nghymru yn cael mwy o amddiffyniad a chefnogaeth mewn da bryd.

**Goblygiadau ariannol**

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

**Leighton Andrews AC**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**

**Tachwedd 2014**